

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn Ysgolion

Paratoi datganiad achos: Canllaw i gyrff cyfrifol

Llinell Gymorth: 03000 259800

E-bost: taaac@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: [TAAAC <http://www.sentw.gov.uk/>](http://www.sentw.gov.uk/)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gwybodaeth am y canllaw hwn

Pwrpas y canllaw hwn yw helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i ymateb i hawliadau sy'n cael eu gwneud i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) gan rieni sy'n credu bod eu plentyn wedi dioddef gwahaniaethu anghyfreithlon yn ei erbyn oherwydd anabledd.

Mae'r canllaw yn esbonio sut i ateb hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae'n disgrifio holl gamau'r broses. Clercod tribiwnlys ydy'r enw sy'n cael ei roi ar staff sy'n prosesu hawliadau drwy swyddfa'r tribiwnlys. Nhw fydd yn delio â'ch llythyrau, eich galwadau ffôn a'ch ymholiadau am yr agweddau gweinyddol ar eich hawliad. **Allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol.**

Mae'r canllaw hwn yn delio â sut i ymateb i hawliad. Nid yw'n gallu dweud wrthoch chi a oes gennych chi siawns dda o lwyddo. Bydd clercod tribiwnlys yn fwy na bodlon i ateb ymholiadau am ochr weinyddol yr hawliad wrth iddo fynd rhagddo ond allan nhw ddim rhoi barn i chi ynghylch a ydych chi'n debygol o ennill neu golli, nac a ddylech chi gymryd rhyw gam penodol.

Gwybodaeth am TAAAC

Tribiwnlys yw TAAAC. Mae TAAAC yn cynnal gwrandawliadau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch hawliadau yn erbyn ysgolion ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru lle mae digwyddiad o wahaniaethu ar sail anabledd wedi codi yng nghyswllt addysg plentyn. Mae TAAAC yn annibynnol ar y llywodraeth ac Awdurdodau Lleol ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol.

Prif Amcan a Rhwymedigaethau i Gydweithredu

Prif amcan y Tribiwnlys ydy delio gydag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyfrifol yn helpu i hyrwyddo'r prif amcan trwy gydweithredu gyda'i gilydd a gyda'r Tribiwnlys at ddibenion gyrru'r apêl neu'r hawliad yn ei flaen.

Cysyniadau allweddol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu plant rhag gwahaniaethu ar sail anabledd ac aflonyddu ac erledigaeth yn berthynol i anabledd. Mae diogelwch yn ymestyn i ddarpar ddisgyblion, disgyblion yn yr ysgol ac mewn rhai achosion i gyn ddisgyblion. Mae hefyd yn diogelu plant heb anabledd yn erbyn rhai mathau o wahaniaethu ac yn erbyn aflonyddu ac erledigaeth yn berthynol i anabledd.

Beth ydy anabledd?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol (sy'n effaith fwy na mân neu ddibwys) a hir dymor (sy'n para am o leiaf flwyddyn neu am weddill oes y person) ar allu person i wneud gweithgareddau cyffredin bywyd bob dydd.

- Nid yw gwisgo sbectol yn cael ei ystyried yn anabledd os mai dyna'r unig anhawster sydd gan yr unigolyn dan sylw. Mae cyflyrau sy'n digwydd yn rheolaidd neu sy'n codi dros dro yn unig, er enghraifft clwy'r gwair neu dorri asgwrn, wedi'u heithrio, yn yr un modd ag y mae bod yn gaeth i alcohol, baco a chyffuriau.

Pa agweddau ar Addysg sy'n gynwysedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb?

Mae'n anghyfreithlon yn ôl y Ddeddf i wahaniaethu, aflonyddu neu erlid person ar sail anabledd mewn perthynas â'r meysydd canlynol o fywyd ysgol:

Derbyniadau

Mae hyn yn cynnwys:

- trefniadau a wneir i benderfynu pwy sy'n cael cynnig eu derbyn fel disgybl,
- telerau'r cynnig i ddisgybl,
- peidio â derbyn person fel disgybl.

Addysg a mynediad at unrhyw fantais, gwasanaeth a chyfleuster

Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar fywyd ysgol yn cynnwys:

- y modd y caiff addysg ei ddarparu,
- y modd y mae disgyblion yn cael mynediad at unrhyw fantais, cyfleuster neu wasanaeth yn yr ysgol,
- peidio â darparu addysg i ddisgybl,
- peidio â darparu mynediad i ddisgybl at unrhyw fantais, cyfleuster neu wasanaeth yn yr ysgol,
- trwy wneud i ddisgybl ddioddef unrhyw niwed arall.

Mae'r gyfraith yn berthynol i'r hyn sy'n digwydd ar adegau egwyl a chinio yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd yn ystod gwersi ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n berthynol i'r ysgol fel clybiau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau chwaraeon a thripiâu ysgol.

Gwaharddiadau

Mae hyn yn cynnwys:

- gwaharddiadau parhaol neu dymor sefydlog,
- gwaharddiadau amser cinio.

Beth ydy gwahaniaethu ar sail anabledd?

Mae gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd pan fo person yn derbyn triniaeth waeth (llai ffafriol neu anffafriol) na pherson arall oherwydd anabledd.

Gall gwahaniaethu ar sail anabledd ddigwydd hefyd pan fo rheol neu bolisi neu ffordd o wneud pethau wedi ei sefydlu sydd yn rhoi grŵp neilltuol o ddisgyblion anabl dan anfantais o'i gymharu â disgyblion heb fod yn anabl a bod person anabl dan anfantais o ganlyniad i hynny.

Beth ydy'r mathau o wahaniaethu?

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn golygu bod pobl sydd ag anabledd, neu sydd wedi bod ag anabledd, yn cael eu diogelu rhag gwahanol fathau o wahaniaethu; sef:

- Gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd;
- Gwahaniaethu anuniongyrchol;
- Gwahaniaethu'n deillio o anabledd;
- Methiant i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer plentyn anabl;
- Aflonyddu sy'n berthynol i anabledd;
- Erledigaeth sy'n berthynol i anabledd.

Gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn derbyn triniaeth waeth (llai ffafriol) na disgybl arall oherwydd anabledd. Gall gwahaniaethu uniongyrchol ar sail anabledd ddigwydd hefyd pan fo disgybl yn derbyn triniaeth lai ffafriol oherwydd ei gysylltiad gyda disgybl anabl neu lle y credir ar gam fod ganddo anabledd.

Gwahaniaethu anuniongyrchol, mae hyn yn digwydd pan fo rheol, polisi neu ymarfer yn berthnasol i'r holl ddisgyblion/grŵp neilltuol o ddisgyblion, ond sydd yn rhoi disgyblion ag anabledd neilltuol dan anfantais o'i gymharu â disgyblion heb fod ag anabledd ac na ellir cyfiawnhau'r rheol, polisi neu ymarfer.

Gwahaniaethu'n deillio o anabledd, mae hyn yn digwydd pan fo disgyblion anabl yn derbyn triniaeth anffafriol am reswm yn berthynol i'w hanabledd a lle na ellir cyfiawnhau'r driniaeth annheg. A lle na ellir dangos nad oedd yr Ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn gwybod am anabledd y disgybl a lle nad oedd disgwyl iddyn nhw yn rhesymol wybod hynny.

Methiant i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer plentyn anabl, mae gan yr ysgol ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i osgoi anfanteision y mae disgyblion anabl yn eu cael. Mae hyn yn gallu golygu cymryd camau cyn i'r disgybl ddechrau mynychu'r ysgol. Mae gwahaniaethu'n digwydd pan nad ydy ysgol wedi cydymffurfio â'i dyletswydd i gymryd camau cadarnhaol i wneud yn siŵr bod disgybl anabl yn gallu cyfranogi'n llawn yn yr addysg a'r gwasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu.

Mae dyletswydd yr ysgol i wneud addasiadau rhesymol yn cynnwys gofyniad i ddarparu gwasanaethau a chymhorthion ategol, er enghraifft offer cyfrifiadurol arbenigol, desgiau wedi'u haddasu neu therapi iaith a lleferydd. Nid oes gofyniad bod ysgol yn tynnu neu yn newid nodwedd ffisegol. Mae gwasanaeth neu gymhorthion ategol yn golygu unrhyw beth sy'n rhoi cymorth neu gefnogaeth ychwanegol i'r person anabl.

Mae cost, gofynion iechyd a diogelwch, a'r angen i gynnal safonau, ymysg y ffactorau sy'n gallu cael eu hystyried wrth benderfynu a yw rhyw gam penodol yn rhesymol i'w gymryd.

Aflonyddu yn berthynol i anabledd, mae hyn yn digwydd lle mae disgybl yn derbyn ymddygiad nas dymunir yn berthynol i anabledd sydd â'r diben neu'r effaith o ymyrryd ar urddas person neu sydd yn elyniaethus, yn ddiraddiol, yn fychanol neu yn dramgwyddus i'r disgybl.

Erledigaeth yn berthynol i anabledd, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod, neu efallai ei fod, yn /wedi gweithredu'n ddidwyll o dan y Ddeddf Cydraddoldeb oherwydd ei fod yn cefnogi person o'r fath.

Pryd y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu?

Er bod disgybl efallai wedi derbyn triniaeth anffafriol neu wedi'i roi dan anfantais, efallai nad yw'r gwahaniaethu yn anghyfreithlon os ydi'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn gallu dangos bod cyfiawnhad dros hynny.

Mewn achosion o wahaniaethu anuniongyrchol a gwahaniaethu'n deillio o anabledd, mae cyfiawnhad yn golygu gallu dangos bod rheswm cyfreithiol a gwirioneddol dros y driniaeth a'i fod yn ymateb teg, cytbwys a rhesymol.

Beth am y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Rhaid i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau nad ydi disgyblion anabl, yn cynnwys plant nad ydyn nhw eto yn yr ysgol ac mewn rhai achosion cyn ddisgyblion, yn cael eu rhoi dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgybl nad yw'n anabl.

Er enghraifft gall cam rhesymol olygu newid polisi neu newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud.

Nid oes yn rhaid i ysgolion addasu adeiladau. Rhaid i ysgolion ac Awdurdodau Lleol gynllunio i wella mynediad i adeiladau dros gyfnod o amser ond mae hon yn ddyletswydd wahanol (dyletswyddau cynllunio) ac nid yw'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb gall y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol gynnwys rhwymedigaeth i ddarparu cymorth neu wasanaeth cynorthwyol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn diffinio cymorth neu wasanaeth cynorthwyol fel unrhyw beth sydd yn darparu cefnogaeth neu gymorth ychwanegol i berson anabl (Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 CCHD). Ond nid yw'r agwedd hon o addasiadau rhesymol mewn grym eto ac felly nid yw'n berthynol i ysgolion.

Oes modd gwahaniaethu yn erbyn plentyn heb anabledd?

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn golygu bod pobl heb anabledd wedi'u diogelu rhag rhai mathau neilltuol o ymddygiad anghyfreithlon; sef

- **Gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar gysylltiad**, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad gyda pherson arall sydd ag anabledd.
- **Gwahaniaethu uniongyrchol yn seiliedig ar ganfyddiad**, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod ar gam yn cael ei ystyried yn anabl.
- **Aflonyddu yn berthynol i anabledd**, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn derbyn ymddygiad nas dymunir yn berthynol i anabledd sydd â'r diben neu'r effaith o ymyrryd ag urddas person neu sydd yn elyniaethus, diraddiol, bychanol neu dramgwyddus i'r disgybl.
- **Erledigaeth yn berthynol i anabledd**, mae hyn yn digwydd pan fo disgybl yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei fod, neu efallai ei fod, yn /wedi gweithredu yn ddidwyll o dan y Ddeddf Cydraddoldeb oherwydd ei fod yn cefnogi person o'r fath.

Pa hawliadau y gall TAAAC ddelio â nhw?

Mae TAAAC yn delio gyda phob hawliad gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn berthynol i anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru, **ac eithrio** hawliadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- penderfyniadau derbyn ysgolion a gynhelir (ar hyn o bryd panel apêl derbyniadau sy'n gwrandao ar y rhain)
- gwaharddiadau parhaol o ysgolion a gynhelir (ar hyn o bryd paneli apeliadau gwaharddiadau sy'n gwrandao ar y rhain).

Mae **ysgol a gynhelir** yn golygu ysgol y mae'r Awdurdod Lleol yn talu ac yn gofalu amdani.

Cael gwybodaeth – y weithdrefn cwestiynau

Os ydy rhywun yn meddwl ei fod wedi dioddef gwahaniaethu yna gall geisio cael gwybodaeth gan yr Ysgol neu'r Awdurdod Lleol i'w helpu i benderfynu os oes ganddo hawliad dilys ai peidio. Os caiff cais am wybodaeth ei wneud does dim rhaid i chi ateb y cwestiynau a godir, ond os na wnewch hynny o fewn 8 wythnos i'r adeg y cafodd y ffurflen ei hanfon neu os yw eich atebion yn cael eu hystyried yn annelwig neu yn amwys yna gall panel y tribiwnlys gymryd hwn i ystyriaeth wrth wneud ei benderfyniad.

Mae ffurflen ragnodedig wedi'i chynhyrchu gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth y gall hawlydd dichonol neu hawlydd ei defnyddio (ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny) os ydyn nhw eisiau gofyn cwestiynau. Mae ffurflen ragnodedig hefyd i ymateb, os hoffech ei defnyddio.

Mae modd cael copi o'r canllaw a'r ffurflenni am y weithdrefn cwestiynau gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth.

Beth arall y gellir ei wneud i geisio datrys yr anghydfod?

Gweithdrefn gwynion yr ysgol

Fel rheol mae er budd gorau pawb i geisio datrys anghytundebau yn y dull symlaf posibl. Mae'n debygol bod gan ysgolion weithdrefn cwynion sydd yn gallu delio gyda chwynion sy'n ymwneud â gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Gwasanaethau Datrys Anghydfod yr Awdurdod Lleol

Rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gael gwasanaethau datrys anghytundebau annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn delio gydag anghydfodau rhwng rhieni ac ysgolion mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mewn rhai achosion mae'r gwasanaeth ar gael hefyd i helpu i ddatrys anghydfodau eraill.

Bydd eich Awdurdod Lleol yn gallu dweud rhagor wrthoch chi am y gwasanaeth hwn ac a yw ar gael ai peidio.

Mewn rhai achosion efallai y bydd yn bosibl defnyddio gwasanaeth cyfryngu neu gymodi annibynnol sydd yn delio gyda hawliadau sy'n berthynol i ysgolion, os oes gwasanaeth o'r fath ar gael yn eich ardal.

Terfynau Amser i wneud hawliad

Mae hawliadau'n cael eu gwneud i TAAAC. Rhaid i riant wneud hawliad dim hwyrach na **chwe mis** o pan ddigwyddodd y gwahaniaethu honedig neu'r weithred honedig olaf o wahaniaethu.

Gellir ymestyn y terfyn amser hwn mewn achosion lle mae Gwasanaeth Cymodi'r Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol yn cael ei ddefnyddio ond dylai rhieni gadarnhau hyn gyda TAAAC cyn i'r cyfnod o chwe mis ddirwyn i ben.

Corff Cyfrifol

Gwneir hawliadau yn erbyn y **Corff Cyfrifol**. Y Corff Cyfrifol ydi'r corff sydd yn gyfrifol am yr ysgol – fel rheol Llywodraethwyr yr Ysgol ac/neu'r Awdurdod Lleol. Ni ellir gwneud hawliadau yn erbyn person unigol fel y pennaeth.

Beth sy'n digwydd ar ôl cofrestru hawliad?

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd eich hawliad wedi'i gofrestru ac yn dweud wrthoch chi pa bryd y mae'n rhaid i chi anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen presenoldeb i mewn. Bydd gennych 30 diwrnod gwaith i gyflwyno eich datganiad achos a'ch ffurflen presenoldeb.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at y rhieni i roi'r un faint o amser iddyn nhw i anfon eu datganiad achos atom.

Ar ddiwedd y cyfnod datganiad achos, byddwn yn sicrhau eich bod chi a'r rhieni yn gweld datganiadau achos eich gilydd.

Byddwn hefyd yn trefnu **gwrandawriad**. Yn y gwrandawriad bydd panel y tribiwnlys yn ystyried yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn ogystal â'r hyn sydd gennych chi, y rhieni a'ch tystion i'w ddweud.

Byddwn yn anelu at gyhoeddi ein **penderfyniad** o fewn tua 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad.

Fel rheol mae'r holl broses, o pan rydym yn derbyn hawliad i pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, yn cymryd rhwng pedwar a phum mis. Gall gymryd hirach os ydi'r achos yn un cymhleth iawn.

Materion allweddol y bydd angen i chi eu hystyried

Ai ni yw'r Corff Cyfrifol?

Mae'r Corff Cyfrifol yn dibynnu ar y math o ysgol ac ar amgylchiadau pob achos. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y Corff Cyfrifol fel yr hyn a nodir yn y tabl isod, ond gall fod eithriadau

Math o ysgol	Corff cyfrifol
Ysgol a gynhelir	Llywodraethwyr Ysgolion, yn gyffredinol
Uned Cyfeirio Disgyblion	Awdurdod Lleol

Math o ysgol	Corff cyfrifol
Ysgol feithrin a gynhelir	Awdurdod Lleol
Pob ysgol annibynnol	Y perchennog
Ysgol arbennig nas cynhelir	Y perchennog

Os nad ydych yn meddwl mai chi ydi'r Corff Cyfrifol dylech ysgrifennu a dweud wrthym ar unwaith, yn esbonio pam.

Paratoi eich datganiad achos ar gyfer hawliad

Mae'n rhaidd i'r Corff Cyfrifol gyflwyno'r canlynol:

- copi o'r penderfyniad yr anghytunir ag ef
- yr holl dystiolaeth y byddwch yn dibynnu arno nad ydych wedi'i gyflwyno eisoes .
- datganiad achos

Mae'n rhaidd i'r datganiad achos:

- nodi a ydy'r Corff Cyfrifol yn bwriadu gwrthwynebu'r hawliad,
- cael ei lofnodi gan berson sydd wedi'i awdurdodi i lofnodi dogfennau o'r fath ar ran y Corff Cyfrifol

Os ydy'r Corff Cyfrifol yn bwriadu gwrthwynebu'r hawliad, mae'n rhaidd i'r datganiad achos nodi'r canlynol:

- ar ba seiliau rydych yn gwrthwynebu'r hawliad neu unrhyw ran o'r hawliad
- crynodeb o'r ffeithiau
- y rhesymau dros y penderfyniad y mae anghytundeb yn ei gylch
- y camau sydd eisoes wedi cael eu cymryd, os oes rhai, i ddatrys yr anghydfod
- sylwadau'r plentyn ar y materion sy'n cael eu codi yn yr hawliad; NEU
- esboniad pam nad ydy'r Corff Cyfrifol wedi sefydlu beth yw barn y plentyn
- enw a chyfeiriad cynrychiolydd y Corff Cyfrifol
- y cyfeiriad y dylid anfon dogfennau ar gyfer y Corff Cyfrifol iddo.

Dylai eich ymateb datganiad achos nodi'r ffeithiau perthnasol fel yr ydych chi yn eu gwybod: am yr hyn a ddigwyddodd, anabledd y plentyn, a gwybodaeth gefndir (e.e. polisïau'r ysgol, anawsterau blaenorol).

Rhaid i unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yr ydych eisiau ei chyflwyno fod yn yr ymateb neu wedi'i anfon gyda'r ymateb. Gall eich ymateb hefyd nodi'r dadleuon yr ydych yn dymuno eu cyflwyno. Dylech roi cymaint o fanylion ag yr ydych yn credu sy'n angenrheidiol i gyflwyno eich achos.

Yn y gwrandawriad bydd gan y Corff Cyfrifol, ac unrhyw dystion sydd ganddo, gyfle i roi eu barn am yr hawliad ac esbonio'r ffeithiau i banel y tribiwnlys

Mae'r dystiolaeth yr ydych yn ei hanfon atom cyn y gwrandawriad a'r hyn yr ydych yn ei ddweud ar y diwrnod yr un mor bwysig i ni. Dim ond y dystiolaeth y mae'r Corff Cyfrifol a'r rhiant yn ei rhoi i ni y gall penderfyniad y Tribiwnlys ei gymryd i ystyriaeth.

Terfyn amser!

Mae terfyn amser llym ar gyfer anfon datganiad achos ac unrhyw dystiolaeth arall atom. Byddwn yn ysgrifennu at y person a enwyd gan y Corff Cyfrifol i ddweud pryd mae hyn. Fel rheol bydd gennych 30 diwrnod gwaith.

Anfon tystiolaeth atom

Wrth baratoi datganiad achos y Corff Cyfrifol helpwch ni trwy sicrhau:

- lle mae'n bosibl dylai papurau fod yn gopiâu A4 sengl a heb eu styffylu,
- papurau mewn du a gwyn. Ni allwn wneud copïau lliw ac felly awgrymwn eich bod yn gwneud llungopi o unrhyw lyfrynnau, fel llawlyfr yr ysgol ac anfon hwnnw atom,
- peidiwch ag ychwanegu eich rhifau tudalennau eich hun,
- rhowch restr gynnwys o'r holl adroddiadau a'r dystiolaeth yr ydych yn eu cyflwyno gyda'ch datganiad achos, er enghraifft: adroddiad y seciolegydd addysg, dyddiedig 5 Mawrth 2012, peidiwch ag anfon y gwreiddiol, dim ond llungopi o'r gwreiddiol.

Beth sy'n ofynnol yn ôl rheoliadau'r Tribiwnlys

Rhaid i'r Corff Cyfrifol gyflwyno'r canlynol er mwyn iddo gyrraedd swyddfa TAAAC cyn diwedd cyfnod y datganiad achos:

- copi o'r penderfyniad sy'n destun dadl
- yr holl dystiolaeth y dibynnir arno nad yw eisoes wedi'i gyflwyno
- datganiad achos
 - rhaid i'r datganiad achos ddatgan a yw'r Corff Cyfrifol yn bwriadu gwrthwynebu'r hawliad ai peidio
 - rhaid i berson sydd wedi'i awdurdodi i lofnodi dogfennau o'r fath ar ran y Corff Cyfrifol lofnodi'r datganiad achos

Os ydy'r Corff Cyfrifol yn bwriadu gwrthwynebu'r hawliad rhaid i'r datganiad achos ddatgan:

- ar ba sail y mae'r hawliad neu unrhyw ran o'r hawliad yn cael ei wrthod
- crynodeb o'r ffeithiau
- y rhesymau dros y penderfyniad sy'n destun dadl
- y camau, os o gwbl, sydd eisoes wedi'u cymryd i ddatrys yr anghydfod
- barn y plentyn am y materion a godwyd yn yr hawliad, NEU
- esboniad pam nad ydy'r Corff Cyfrifol wedi sefydlu barn y plentyn
- enw a chyfeiriad cynrychiolydd y Corff Cyfrifol
- y cyfeiriad ar gyfer anfon dogfennau at y Corff Cyfrifol.

Eich rhesymau dros wrthwynebu'r hawliad

Gall fod sawl rheswm pam eich bod yn gwrthwynebu'r hawliad. Nodwch y rhain mor eglur ag y gallwch. Gall y paragraffau canlynol eich helpu. Dylech fodd bynnag gyfeirio'n agos at God Ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac at y canllaw i ysgolion.

Anabledd y disgybl a'ch gwybodaeth amdano

Dylech ddweud a ydych yn derbyn bod y disgybl yn anabl o dan y diffiniad yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Os nad ydych yn derbyn bod y plentyn yn anabl, dylech ddweud pam.

Os ydych yn derbyn bod y plentyn yn anabl ond nad oedd neb yn yr ysgol yn gwybod am hyn neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddyn nhw wybod am hyn pan ddigwyddodd y gwahaniaethu honedig, dylech esbonio hyn.

Cofiwch os oes unrhyw aelod o staff yr ysgol wedi'u hysbysu am anabledd disgybl, ystyrir bod yr ysgol gyfan yn gwybod am hynny. Os nad oedd neb yn gwybod, byddai'n ddefnyddiol nodi'r camau yr ydych wedi eu cymryd i alluogi'r rhieni i'ch hysbysu o anableddau eu plentyn. Os yw rhiant wedi gofyn i chi gadw natur neu fodolaeth anabledd plentyn yn gyfrinachol, dylech ddweud wrthym.

Y ffeithiau

Efallai eich bod yn dymuno gwneud sylwadau ar faterion ffeithiol. Ydych chi'n derbyn bod yr hyn y mae'r rhieni yn ei ddweud a ddigwyddodd wedi digwydd mewn gwirionedd? A oes rhyw hanes i hawliad y rhieni a fyddai'n ddefnyddiol i ni wybod amdano; efallai y byddwch yn dymuno crynhoi hynny. A oes rhyw gefndir ffeithiol sylfaenol y dylai panel y tribiwnlys wybod amdano?

Cyfiawnhad

Os ydych yn derbyn adroddiad y rhieni o'r hyn a ddigwyddodd, ond yn ystyried bod cyfiawnhad i'r gwahaniaethu yn berthynol i anabledd y plentyn, bydd angen i chi ddweud pam.

Bydd angen i chi ddangos i ni fod y driniaeth wedi'i bwriadu i ddiwallu amcan dilys mewn dull teg, cytbwys a rhesymol. Efallai hefyd y byddwch eisiau dweud wrthym sut yr ydych wedi ystyried dulliau eraill o gwrdd â'r amcanion na fyddai wedi cael effaith wahaniaethol.

Ni ellir cyfiawnhau triniaeth lle y darganfyddir bod gwahaniaethu uniongyrchol neu fethiant i wneud addasiadau rhesymol wedi digwydd.

Triniaeth llai ffafriol

Wrth ystyried yr hawliad efallai y bydd angen i ni sefydlu a ydy'r disgybl wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd ei anabledd ei hun neu oherwydd anabledd rhywun arall. Bydd angen i ni ystyried a ydy'r disgybl wedi'i drin yn llai ffafriol nag yr ydych (neu y byddech) yn trin disgybl arall heb anabledd.

Os nad ydych yn ystyried bod y disgybl anabl wedi'i drin yn llai ffafriol na disgybl arall heb anabledd, dylech ddweud wrthym am hyn.

Addasiadau rhesymol

Efallai bydd angen i chi ddweud wrthym am unrhyw gamau addasiadau rhesymol yr ydych wedi'u cymryd i osgoi anfantais sylweddol lle mae'r ddarpariaeth, maen prawf neu ymarfer wedi rhoi'r disgybl anabl dan anfantais sylweddol. Mae anfantais sylweddol yn golygu rhywbeth mwy na mân neu ddibwys.

Gall cam rhesymol er enghraifft olygu addasu polisi neu newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud. Does dim rhaid i ysgolion addasu adeiladau. Rhaid i Ysgolion ac Awdurdodau Lleol gynllunio i wella mynediad i adeiladau dros amser ond mae hon yn ddyletswydd wahanol.

Mae addasiad rhesymol yn cynnwys darparu cymhorthion a gwasanaethau cynorthwyol. Mae cymhorthion neu wasanaethau cynorthwyol yn golygu unrhyw beth sydd yn darparu cefnogaeth neu gymorth ychwanegol i berson anabl. Ar hyn o bryd nid yw'r ddyletswydd

cymhorthion a gwasanaethau cynorthwyol yn berthynol i ysgolion. Mae Llywodraeth y DU yn dal i edrych ar hyn.

Os ydych yn ystyried nad oes unrhyw addasiad rhesymol y gellid fod wedi'i wneud, dylech ddweud wrthym sut yr ydych wedi ystyried pa gamau y gellid fod wedi'u cymryd a pham eich bod wedi dod i'r casgliad na fyddent yn rhesymol.

Atebion

Os ydych yn gwrthwynebu'r hawliad yn gyfan gwbl ai peidio, efallai y byddwch yn dymuno rhoi barn ar unrhyw atebion a gynigiwyd gan y rheini. Rydym wedi cynnwys adran ddewisol ar y ffurflen hawliad i rieni ddweud beth yn eu barn nhw y dylid ei wneud i gywiro pethau. Os ydyn nhw wedi llenwi hwn, dywedwch wrthym ba mor bell y byddai'r mesurau a awgrymwyd yn rhai rhesymol. Os oes gennych awgrymiadau eich hun, gall y rhain hefyd ein helpu i benderfynu beth y dylid ei wneud.

Dod i gytundeb

Dim ond pan fo anghytundeb rhyngoch chi a'r rhieni y bydd hawliad yn dod atom ni, ond mae'n gwbl gywir i barhau i gynnal trafodaethau rhwng y partiön ar ôl gwneud hawliad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddweud wrthym am unrhyw rannau o'r hawliad yr ydych chi a'r rhieni wedi llwyddo i'w datrys ar ôl i ni dderbyn yr hawliad.

Oes modd i ni ddatrys y mater heb wrandawriad?

Bydd yn well fel rheol pe bai anghydfodau yn cael eu datrys trwy gytundeb rhyngoch chi a'r rhieni. Mae'n gwbl gywir i drafod y mater tra'n aros am hawliad Tribiwnlys.

Gall fod anawsterau cyfathrebu wedi bod yn ffactor yn yr anghydfod. Gall rhieni ddefnyddio gwasanaeth cyfryngu annibynnol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Os byddwch yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymodi dim ond gyda'ch caniatâd chi y gellir defnyddio'r hyn a ddywedwch yn y cyfarfodydd hyn mewn gwrandawriad Tribiwnlys.

Allwn ni gyflwyno rhagor o wybodaeth ar ôl y datganiad achos?

Mae tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau ar gyfer datganiadau achos yn cael ei alw'n **dystiolaeth ysgrifenedig hwyr**. Mae cyfyngiadau ar dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr.

Gallwch ofyn i banel y tribiwnlys ar ddiwrnod y gwrandawriad a oes modd derbyn tystiolaeth hwyr. Bydd panel y tribiwnlys yn ystyried eich cais cyn belled â bod:

- y ddau barti yn cytuno i dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr; NEU
- eich bod yn gallu dangos bod y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn cwrdd â'r amodau canlynol:
 - nid oedd y dystiolaeth hwyr ar gael, ac ni allai yn rhesymol fod wedi bod ar gael, cyn diwedd y dyddiad cau ar gyfer y datganiad achos; a
 - mae copi o'r dystiolaeth hwyr wedi'i anfon at TAAAC a'r parti arall fel ei fod yn cael ei dderbyn 5 diwrnod gwaith clir o leiaf cyn y gwrandawriad.
 - dim ond ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau gan y parti arall y gall panel y tribiwnlys dderbyn y dystiolaeth ysgrifenedig hwyr a dim ond os ydy'r dystiolaeth yn anhebygol o effeithio ar ymddygiad effeithlon y gwrandawriad.

- os na chaiff yr amodau eu diwallu, gall panel y tribiwnlys roi caniatâd i barti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig hwyr yn y gwrandawriad os gellir dangos bod perygl difrifol o ragfarn i'r parti sydd yn ceisio dibynnu arno os na chaiff y dystiolaeth ei derbyn.

Gall panel y tribiwnlys wrthod derbyn tystiolaeth ysgrifenedig hwyr os yw o'r farn y byddai gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

Os nad yw'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr eisoes wedi'i gopïo i TAAAC a'r parti arall fel ei fod wedi'i dderbyn 5 diwrnod gwaith clir o leiaf cyn y gwrandawriad, dylech ddod â 5 copi o'r dystiolaeth ysgrifenedig hwyr gyda chi i'r gwrandawriad.

A ddylen ni ddadlau yn erbyn yr hawliad?

Mae ffurflen hawliad y rhiant yn cynnwys blwch dewisol er mwyn iddyn nhw ddweud sut y bydden nhw'n hoffi gweld pethau'n cael eu cywiro. Efallai y bydd y rhain yn bethau y byddwch yn fodlon eu gwneud heb angen mynd i Dribiwnlys.

Os ydych yn cytuno bod gwahaniaethu wedi digwydd ond yn bwriadu cywiro pethau, efallai y bydd y rhieni yn fodlon tynnu eu hawliad yn ôl.

Os byddwn ni'n dadlau yn erbyn hawliad, a oes angen cyfreithiwr arnom?

Dydy cynrychiolaeth gyfreithiol ddim yn hanfodol mewn cyfarfodydd Tribiwnlys. Ond efallai y byddwch yn dewis cyfarwyddo cyfreithiwr i fod yn bresennol yn ychwanegol at eich cynrychiolydd. Os byddwch yn ymgynghori gyda chyfreithiwr, neu gyda chynrychiolydd arall, dylech wneud hynny cyn gynhared â phosibl.

Beth sy'n digwydd os nad ydyn ni'n gwrthwynebu'r hawliad?

Os nad ydych yn gwrthwynebu'r hawliad rhaid i chi ysgrifennu i ddweud hynny wrthym cyn diwedd cyfnod y datganiad achos. Rhaid i chi gynnwys gwybodaeth am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud i roi terfyn ar y gwahaniaethu. Yna byddwn yn ysgrifennu at y rhieni i ofyn a ydyn nhw'n dymuno tynnu'r hawliad yn ôl. Os nad ydyn nhw'n tynnu'r hawliad yn ôl bydd yn mynd i wrandawriad lle na fydd y Corff Cyfrifol yn gallu bod yn bresennol.

Beth os nad ydy'r Corff Cyfrifol yn ateb?

Os na fydd y Corff Cyfrifol yn anfon ymateb erbyn diwedd yr amser sydd ganddo i ymateb, bydd eich hawliad yn cael ei basio i Gadeirydd y Tribiwnlys a bydd yntau'n penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd. Efallai y bydd hyn yn cynnwys gwrthod caniatáu i'r corff cyfrifol gymryd rhan bellach yn yr achos.

Bwrw Allan

Gall y Corff Cyfrifol wneud cais ar seiliau cyfyngedig i fwrw hawliad allan. Os ydy Tribiwnlys yn bwrw'r hawliad allan bydd yn dwyn yr hawliad i ben. Yr unig seiliau i fwrw hawliad allan yw bod yr hawliad:

- heb ei wneud yn unol â rheoliadau'r Tribiwnlys

- heb fod neu heb fod bellach o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys
- yn datgelu dim seiliau rhesymol
- yn gamdriniaeth o broses y Tribiwnlys
- Rhaid gwneud cais i fwrw hawliad allan mewn ysgrifen yn nodi'r seiliau a'r rhesymau i ddibynnu arnynt yn llawn.

Allwn ni ddatrys y mater heb wrandawriad?

Yn gyffredinol y peth gorau sy'n gallu digwydd yw bod anghydfod yn cael ei ddatrys trwy gytundeb rhyngoch chi a'r rhieni. Mae'n gwbl briodol i drafod y mater tra'n aros am benderfyniad ynghylch hawliad mewn Tribiwnlys.

Efallai bod problemau cyfathrebu wedi bod yn ffactor yn yr anghydfod. Mae rhieni'n gallu defnyddio gwasanaeth cyfryngu annibynnol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Os ydych chi'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymodi, dim ond gyda'ch caniatâd chi y gellir defnyddio'r hyn rydych yn ei ddweud mewn cyfarfodydd o'r fath mewn gwrandawriad Tribiwnlys.

Gwrandawriad y Tribiwnlys

Mae DVD ar gael i ddangos i chi beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad. Gallwch ofyn i ni am gopi o'r DVD trwy gysylltu â ni.

Byddwn yn ysgrifennu atoch chi i ddweud wrthoch chi faint o'r gloch a pha bryd y bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal.

Rydym yn cynnal gwrandawriadau ledled Cymru a byddwn yn gwneud ein gorau i gynnal eich gwrandawriad chi yn rhywle sydd o fewn awr o bellter teithio o gartref y rhieni. Rydym fel arfer yn cynnal gwrandawriadau mewn adeiladau cyhoeddus, megis gwestai. Bydd y gwrandawriad ei hun yn digwydd mewn ystafell breifat.

Dim ond lleoliadau sy'n gwbl gyfleus i ddefnyddwyr anabl rydym yn eu defnyddio. Cofiwch ddweud wrthon ni os oes gennych chi unrhyw anghenion penodol.

Mae gwrandawriadau yn dechrau am 10.00 y bore fel arfer. Byddwn yn cadarnhau'r amser cychwyn drwy lythyr. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn i'r gwrandawriad ddechrau. Mae gwrandawriad yn gallu para drwy'r dydd ond nid yw fel arfer yn mynd ymlaen ddim hwyrach na 5.00pm.

Panel tribiwnlys fydd yn gwrando ar yr hawliad. Mae un person ar y panel yn gyfreithiwr, a hwnnw fydd yn cadeirio'r gwrandawriad. Mae gan y ddau aelod arall wybodaeth arbenigol a phrofiad o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anabled.

Pwy sy'n gallu bod yn bresennol yn y gwrandawriad?

- **Cynrychiolydd o'r Corff Cyfrifol**

- **Cynrychiolydd cyfreithiol**

Rydych yn gallu cael rhywun i gynrychioli'r Corff Cyfrifol yn y gwrandawriad p'un ai a ydych chi eich hun yn dod ai peidio.. Nid oes yn rhaid i'r person hwnnw fod yn gyfreithiol gymwys.

- **Tystion**

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst gyda chi i'r gwrandawriad.

Mae dewis pwy i ddod gyda chi i'r gwrandawriad fel tystion yn gallu bod yn anodd. Mae'n rhaid i dystion fod yn barod i ateb cwestiynau am eu tystiolaeth. Bydd angen iddyn nhw fod â gwybodaeth dda am y ffeithiau a'r rhesymu y tu ôl i'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi.

- **Eiriolwr**

Gallwch ddod â rhywun gyda chi i gyfleu barn a dymuniadau'r plentyn.

- **Sylwedydd**

Oes raid imi ddweud wrthoch chi pwy sy'n dod gyda mi i'r gwrandawriad?

Bydd yn rhaid i chi ddweud wrthon ni pwy sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad. Byddwn yn anfon ffurflen presenoldeb atoch i'w llenwi. Bydd angen i chi gynnwys enwau pawb rydych am ddod gyda chi. **Os nad ydych chi'n dweud wrthon ni pwy sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad efallai na fyddan nhw'n gallu bob yn bresennol yn y gwrandawriad.**

Ydw i'n gallu newid pwy sy'n dod gyda mi i'r gwrandawriad?

Os ydych chi'n newid y bobl sydd wedi'u rhestru ar eich ffurflen presenoldeb, dylech roi gwybod i ni ar unwaith.

Gallwch newid rhywun sydd wedi'i enwi fel tyst ar eich ffurflen presenoldeb drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig o'r newid i TAAAC a'r parti arall mewn da bryd iddyn nhw ei dderbyn ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

Rhaid i unrhyw gais i newid tyst sy'n cael ei wneud lai na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad gael ei benderfynu gan y Llywydd neu banel y tribiwnlys.

Pryd fyddai'n cael gwybod beth ydy penderfyniad y Tribiwnlys?

Bydd y penderfyniad ysgrifenedig a'r rhesymau drosto yn cael ei anfon drwy'r post cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawriad fel arfer. Byddwn yn anfon y penderfyniad atoch chi ac at y rhieni.

Os ydyn ni'n penderfynu bod gwahaniaethu anghyfreithlon wedi digwydd, byddwn yn dweud hynny yn ein penderfyniad. Os ydyn ni'n anghytuno gyda'r hawliad, byddwn yn ei wrthod.

Rydym yn gallu gorchymyn y Corff Cyfrifol i wneud unrhyw beth rhesymol i gywiro'r gwahaniaethu. Does gennym ddim hawl o dan y gyfraith i orchymyn iawndal.

Mae'r gorchymyn yn gyfreithiol rwymol. Rydym yn gallu gorchymyn cymryd camau a fydd yn helpu i wneud iawn am y cyfleoedd y mae'r plentyn wedi'u colli neu i atal unrhyw wahaniaethu yn y dyfodol. Dyma rai enghreifftiau o hyn:

- hyfforddi staff yr ysgol;
- llunio canllawiau newydd ar gyfer staff;
- gwneud newidiadau i bolisïau'r ysgol;
- gwersi ychwanegol er mwyn gwneud iawn am ddysgu mae'r plentyn wedi'i golli;
- newid lleoliad gwersi neu weithgareddau (ond nid newid nodweddion ffisegol adeiladau);
- ymddiheuriad ysgrifenedig i'ch plentyn; a

- triplau neu gyfleoedd eraill er mwyn gwneud iawn am y gweithgareddau y mae eich plentyn wedi'u colli.

Byddwn yn dweud wrth y Corff Cyfrifol i weithredu'r gorchymyn o fewn cyfnod penodol. Mae'n rhaid i'r Corff wneud hynny yn ôl y gyfraith. Os na wneir hyn, nid oes gan y tribiwnlys unrhyw bwerau gorfodi, ond mae rhieni'n gallu cymryd camau eraill i orfodi gorchymyn y tribiwnlys.

Beth alla i wneud os nad ydw i'n fodlon ar eich penderfyniad?

Mae ein penderfyniad yn derfynol. Os ydych yn meddwl bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad a sut y cafodd ei wneud gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad dim ond oherwydd nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y gwnaethom gyhoeddi'r penderfyniad.

Os ydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith gallwch apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys ond yn gyntaf rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio. Rhaid i chi wneud eich cais fel ein bod yn ei dderbyn dim mwy na 28 diwrnod o'r dyddiad ar y llythyr y gwnaethom ei anfon gyda'r penderfyniad.